



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau  
Ambiwlans Brys  
Emergency Ambulance  
Services Committee

# Adolygiad Gwasaneth GATMB Briff 6

## Y Sefyllfa Bresennol ar 7 Mawrth, 2023

### Datblygiadau Diweddaraf



Yn gyntaf, diolch i chi am eich diddordeb parhaus yn Adolygiad y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATMB). Rwy'n falch o allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud cyn dechrau y broses ffurfiol o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â'r Adolygiad Gwasanaeth GATMB sy'n gweithio mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru..

Fel yr eglurwyd yn flaenorol, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) wedi cytuno i archwilio a gwneud y mwyaf o'r gweithgaredd ychwanegol y gellid ei gyflawni o'r canolfannau presennol ac i archwilio opsiynau i ad-drefnu'r gwasanaeth..

Ers y sesiwn friffio ddiwethaf, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ambiwlans Awyr Cymru (22 Chwefror, 2023) ei phartner hedfan newydd sef Gama Aviation Plc a oedd yn llwyddianus wrth ymgeisio am y contract saith mlynedd i ddarparu gwasanaethau hedfan i'r ambiwlans awyr yng Nghymru, gan ddechrau ar Ionawr 01, 2024. Cadarnhaodd yr Elusen hefyd ei bod yn ymestyn ei contractau gyda Maes Awyr Caernarfon a Maes Awyr y Trallwng, lle mae dau o'i gweithrediadau wedi'u lleoli ar hyn o bryd, tan 2026.

Mae'r cyhoeddiad hwn gan yr Elusen i ddechrau'r contract hedfan newydd tra'n parhau â'r pedwar canolfan yn golygu y gall ymgysylltiad Adolygiad Gwasanaeth GATMB ddod i ben tra bod yr Elusen ac EMRTS yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau achub bywyd. Mae manylion llawn am y cyhoeddiad hwn ar [wefan](#) Ymddiriedolaeth Elusennol Ambiwlans Awyr Cymru.

Mae'r gwaith o baratoi'r gweithgaredd ymgysylltu ffurfiol wedi parhau a byddwch yn gweld o'r diweddariad hwn faint o wybodaeth sydd bellach ar gael ar ein [wefan PGAB](#) i gynnwys fideo sy'n esbonio ac adran Cwestiynau Cyffredin fanwl.

Rwy'n gobeithio y bydd y wefan hon yn ddefnyddiol i chi, ond fel bob amser, rydym yn awyddus i gael adborth ar sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod yr ymgysylltu hwn mor ystyrlon â phosibl i bawb sy'n gysylltiedig. Gallwch gysylltu â ni naill ai drwy ein [wefan](#) (e-ffurflen) neu [e-bost](#).

Rydym hefyd wedi cael rhai awgrymiadau defnyddiol o leoliadau ar gyfer sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd ac rydym yn gweithio drwy'r lleoliadau sydd ar gael a fydd yn helpu i lunio amserlen gyffredinol y gweithgarwch ymgysylltu. Gallwn eich sicrhau y byddwn yn rhoi digon o rybudd o ddyddiadau a lleoliadau i sicrhau bod y rhai sydd am gymryd rhan yn cael y cyfle i wneud hynny.

Mae Adolygiad Gwasanaeth GATMB ar yr agenda ar gyfer cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor (Dydd Mawrth, 14 Mawrth, 2023, manylion ar y wefan) i ddechrau'r broses ymgysylltu ffurfiol unwaith y bydd deunyddiau ymgysylltu wedi'u cytuno gan bob parti, yn unol â chytundeb yng nghyfarfod EASC ar 06 Rhagfyr, 2022.

Nodyn i'ch atgoffa bod yr holl ddiweddariadau briffio a gyhoeddwyd yn flaenorol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar wefan PGAB, ond os hoffech dderbyn copi wedi'i e-bostio atoch yn uniongyrchol, anfonwch [e-bost](#) yn gofyn am gael eich ychwanegu at ein rhestr ddisbarthu gyda'ch manylion.

**Stephen Harrhy**  
Prif Gomisiynder y Gwasanaethau Ambiwlans



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Pwyllgor Gwasanaethau  
Ambiwlans Brys  
Emergency Ambulance  
Services Committee

# Adlolygiad Gwasaneth GATMB Briff 6

## Y Sefyllfa Bresennol ar 7 Mawrth, 2023

### Adnewyddu Gwefan

Rydym wedi diweddarau ein gwefan i'w gwneud yn haws i'w llywio drwy greu ardal ymgysylltu benodol sy'n canolbwyntio ar y GATMB, mae rhai o'r ychwanegiadau newydd isod:

### Fideo sy'n esbonio



Mae [fideo sy'n esbonio](#) wedi'i gynhyrchu fel rhan o gam cyn-ymgysylltu'r gwaith hwn. Gan gydnabod cymhlethdodau sut mae'r gwasanaeth ambiwlans awyr wedi'i ddylunio i esbonio'r broses o sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu a pha sefydliad sy'n gyfrifol am bob rhan o'r gweithgaredd.

### Newyddion

Mae ardal newyddion bwrpasol wedi'i chreu i sicrhau bod yr holl ddiweddariadau ar gael mewn un lle.

26 Ionawr 2023

#### [PGAB GATMB Briffio 5 \(PDF, 467Kb\)](#)

Pwrpas y nodyn briffio hwn yw rhoi diweddariad pellach ar y gwaith cyn cael ei wneud cyn y broses ffurfiol o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â'r Adlolygiad Gwasanaeth or Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATMB Cymru) syn gweithio mewn partneriaeth ag Awyr Cymru. Elusen Ambiwlans.

6 Ionawr 2023

#### [PGAB GATMB Briffio 4 \(PDF, 268Kb\)](#)

Pwrpas y nodyn briffio hwn yw rhoi wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer dechrau broses ymgysylltu ffurfiol y cytunwyd arni mewn perthynas â'r Adlolygiad Gwasanaeth or Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATMB Cymru) syn gweithio mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Nawr yn debygol o ddechrau yn gynnar ym mis Chwefror 2023.

### Cwestiynau Cyffredin

Mae gwaith wedi dechrau ar Cwestiynau Cyffredin newydd sy'n cwmpasu 3 maes:

- 1) Sut mae'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth
- 2) Pam fod angen y broses ymgysylltu
- 3) Beth yw'r broses ymgysylltu ffurfiol

Ynghyd â geirfa ddefnyddiol o dermau:

- Sut mae'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr yn cael ei Ddarparu mewn Partneriaeth
- Pam fod angen y Broses Ymgysylltu
- Beth yw'r Broses Ymgysylltu Ffurfiol?
- Geirfa termau

Byddwn yn gweithio gyda'r Elusen a'r Tîm EMRTS i sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.

### Dogfennau Ategol

Lle bo'n bosibl byddwn yn rhannu cymaint o wybodaeth ategol â phosibl gyda chi, bydd hon wedi'i lleoli o fewn ardal Dogfennau Ategol y wefan a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y tîm.

Dyddiad	Teitl	Crynodeb
14/10/2022	<a href="#">Cyflwyniad Cynneg Datblygu Gwasanaeth (PDF, 2.5Mb)</a>	Pwrpas y cyflwyniad hwn yw rhoi trosolwg i randdeiliaid o gynneg datblygu gwasanaeth GCTMB a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (GCTMB Cymru) ac Elusen Ambiwlans Awyr Cymru (EAAC).
15/11/2022	<a href="#">GCTMB Cynneg Datblygu Gwasanaeth (PDF, 10.0Mb)</a>	Mae'r ddogfen yn uniaith Saesneg ac mae'n gyfansawdd o adolygiadau a dadansoddi aml-wasanaethau, ond yn unol â chynigion a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r neges graidd yn un o wasanaeth sy'n gwella'n barhaus ar gyfer pobl Cymru.
15/11/2022	<a href="#">GCTMB Cynneg Datblygu'r Gwasanaeth yn cwmpasu Papur (Word, 143Kb)</a>	Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth gefndirol i Aelodau PGAB a chyflwyniad i'r cynneg i ddatblygu'r gwasanaeth sy'n cael ei gyflwyno gan y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) ac Ymddiriedolaeth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.